



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,
nos Fawrth, 21 Mai 2019 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room
on Tuesday, 21 May 2019 at 6.00pm.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Shan Williams (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Trystan Phillips a'r Clerc, Mr Wynford Jones.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs Elaine Evans, Yvonne O'Neill

Croeso'r Cadeirydd / Chair's welcome

Croesawodd y Maer, y Cyng. Shan Williams, bawb i'w cyfarfod swyddogol cyntaf ers ei sefydlu.

The Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed everyone to her first official meeting since her installation.

Ymweliad / Visit

Ymweliad gan PCSO Steffan Jones

Croesawyd y Swyddog gan y Maer, ac aeth ef ymlaen i roi adroddiad o faterion lleol o fewn ei gyfrifoldeb. Roedd anharddu mapiau newydd y dref gan daflenni fegan, fandaleiddio toiledau Feidrfair a Lôn y Moch, ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac yfed alcohol mewn mannau a glustnodir fel ardaloedd di-alcohol yn y dref ymhlith y materion a drafodwyd. Roedd y broblem o ieuentid yn seiclo ar y ffordd fawr yn y cyfeiriad anghywir ac ar balmentydd, a'r cythrwfl o ddau ddyn yn ymladd gyda chyllell ar y Heol Fawr yn achosion o bryder; cafodd y ddau eu harestio am y digwyddiad. Diolchwyd i'r Swyddog am ei bresenoldeb gan y Maer, a chytunwyd iddo ymweld â'r cyngor yn chwarterol mewn is-bwyllgorau.

Visit by PCSO Steffan Jones.

The Officer was welcomed by the Mayor and proceeded to give a comprehensive report of local issues within his remit. The defacing of the new town maps with vegan leaflets, the vandalising of the toilets at Feidrfair and Chancery Lane, anti-social behaviour and the consumption of alcohol in non-alcohol areas of the town were highlighted. Youths cycling on the highway in an unauthorised direction and on pavements, and a recent knife-wielding incident resulting in two men taken into custody following an ugly fracas in the High Street were additional worrying developments.

PCSO Jones was warmly thanked by the Mayor for his attendance, and it was agreed that a quarterly visit to sub-committees would be beneficial and informative.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A190262/3	Bridge Warehouse, Castle Street	Change of use from commercial and residential to hotel.	The council, in principle, supports the application, but has reservations regarding parking issues and access to the highway. Documents are ambiguous as to actual description of development – hotel or bunk house accommodation? Clarification is required.

A190267	Glascoed, Napier Street	Erection of an extension, new bi-fold doors to kitchen and erection of a single storey brick shed in rear garden.	The council supports the application.
A190301	Site at MD Recycling, Crugmore Farm, Penparc	Construction of a new kitchen display unit with office space and storage	The council supports the application. It is noted that the area has a number of long-standing industrial businesses.

Yn datgan diddordeb / Declaration of interest:

Y Cyng. / Cllrs John Adams-Lewis (*materion cynllunio / all planning issues*),
Richard Jones (A190301), Steffan Morgan (A190301).

Priffyrdd / Highways

- (a) **Ymateb yr Adran Briffyrdd i ymholiadau'r Cyng. Catrin Miles ynglŷn â gosod atalfeydd ar ffordd yr A478 ger Pentŵd.**
Cytunodd Mr Garry Griffiths, swyddog yn Adran Briffyrdd y cyngor sir, ymweld ac archwilio'r safle.

The response of the Highways Department to Cllr Miles enquiry regarding placing barriers on the A478 highway near Pentood.

Mr Garry Griffiths, Highways officer with the county council, agreed to visit and inspect the site.

Maes Sgrialu / Skateboard Park

- (a) **Mae'r cyfarpar i'w gosod ar y Maes Sgrialu wedi eu harchebu a'u talu erbyn hyn – cymer y meinciau pum wythnos cyn cyrraedd ac mae Mr Mark Jukes yn barod i'w symud i'r man a'r lle. Bydd angen paratoi'r tir i'w gosod. Mae Ffrindiau'r Maes Sgrialu yn trefnu'r gwaith ar hyn o bryd.**
Dywedodd y clerc ei fod wedi cael cyfarfod gyda Ms Helena Turgel a ddaeth i'r adwy i gynorthwyo pwyllgor Ffrindiau'r Maes Sgrialu gyda'r gwaith gweinyddol. Ar hyn o bryd maent yn paratoi'r sylfaen i osod y ddwy fainc. Ychwanegodd y byddai'r gwaith papur a'r cofnodion yn cael eu blaenyrru i'r cyngor.

The concrete benches and the bin have been ordered and paid for – the lead-time for delivery of benches: 5 weeks. Mr Mark Jukes has kindly agreed to unload and place in position. The land to be prepared in advance. The Friends of the Skateboard Park are presently organising the necessary requirements.

Bill to be paid: Ben Fagan, Private Contractor, Cardigan – Manufacturing and installation of steel drain lid and custom steel grind rail for Skateboard bowl = £156.00 (incl. VAT £26.00.) It was agreed that the bill be paid.

The clerk reported that he had had an informative meeting with Ms Helena Turgel who has been brought in to assist with the administration of the Friends of the Skateboard Park committee. She mentioned that the foundation to set the benches was presently being organised, and that Mr Mark Jukes is on stand-by to unload the benches on arrival. She added that all paperwork and minutes would be forwarded to the council.

Sianel Glir Afon Teifi / Afon Teifi Fairways Committee

- (a) **Adroddiad yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd ar 20 Mai.**
Mynychwyd y cyfarfod gan y Cyng. Catrin Miles. Mae'r boncyffion yn dilyn llifogydd yr hydref ar yr afon Teifi yn dal i fod yn broblem i ddefnyddwyr yr afon. Dywedodd y Cyng. Richard Jones bod cwmni J. J. Williams a'i Feibion mewn cytundeb gyda'r cyngor sir i waredu'r boncyffion. Awgrymwyd bod angen peirianwaith arbenigol i gyflawni'r tasg. Awgrymwyd hefyd y gellid clymu bwiau i'r boncyffion er mwyn arddangos y manau peryglus. Gofynnwyd i'r cyngor sir symud y cist o draeth Patch. Mae'r awdurdod wedi gwario £9,000 ar gostau cynnal a chadw'r Spit yn Patch a £5,000 ar y sianelau mordwyo. Mae nifer yr angorau wedi gostwng yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i'r cyngor sir dalu am wregys achub a osodwyd gan y pwyllgor.

Report following the Annual General Meeting held on 20 May.

The meeting was attended by Cllr Catrin Miles. The trees washed down-river in the Teifi following the autumn floods were still hazardous to river users. Cllr Richard Jones stated

that J. J. Williams & Sons were under contract with the county council to remove the tree trunks. It was suggested that specialised equipment was needed to solve the problem. Another suggestion was to attach buoys to the trunks which would clearly identify the precarious locations. The county council was requested to remove the container from the beach at Patch. It was reported that the county council had expended £9,000 on the spit maintenance at Patch and £5,000 on the fairways. The number of moorings has decreased during the year. The committee is still awaiting payment for the replacement of a lifebelt at Prince Charles quay.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- (a) **Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Playsafety Ltd. (RoSPA) y byddant yn archwilio cyfarpar chwarae Maes Chwarae Brenin Siôr 5ed a'r Maes Sgrialu yn ystod mis Mehefin.**

Gofynnwyd i'r clerc hysbysu swyddogion y Maes Sgrialu y byddai'r archwiliad ar y safle yn digwydd ym mis Mehefin.

Notification has been received from Playsafety Ltd (RoSPA) that the King George 5th Playing Field play equipment and the Skateboard Park will be inspected during June. The clerk was asked to inform the officers of the Skateboard Park of the impending inspection.

- (b) **Mainc wedi ei fandaleiddio ym Mharc y Ffair. Mae'r mainc wedi ei chwalu gan fod y pren yn bydredig. Mae logo'r cyngor wedi ei chynnwys ar ochr y fframwaith haearn. Awgrymwyd bod y Bachan Deche yn symud y fframwaith a bod adran gwaith coed Coleg Ceredigion yn ystyried ei chywiro.**

Bench vandalised in the Fair Field car park.

The bench which is of steel manufacture and has a council emblem within the metalwork was deemed to be time-worn with the wooden framework in a poor condition. It was recommended that the Handyperson salvages the frame and that the council confers with the woodwork department of Coleg Ceredigion regarding its reclamation.

- (c) **Prydles Cae Chwarae Maesglas: Yn dilyn y cyngor a dderbyniwyd oddi wrth Mr John Dyer, cyfreithiwr y cyngor, awgrymodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y cyngor yn gofyn i gwmni Tai Ceredigion Cyf. am brydles o 99 mlynedd neu am gynnig y darn o dir i'r cyngor yn ddi-dâl.**

The Maesglas Play Area lease: Following a meeting with Mr John Dyer, the council solicitor, Cllr John Adams-Lewis recommended that the council requests a 99 year lease or the dedication of the lease to the town council from Tai Ceredigion Cyf.

Gwahoddiadau i'r Maer / Invitations to the Mayor

23 Mai—Prynhawn Agored gyda U3A Aberteifi, Neuadd y Dref, 2:00yp.

23 May—Open Afternoon with Cardigan U3A at the Guildhall at 2:00pm.

26 Mai—Y Maer i agor Sioe Clwb Ceir Clasurrol Aberteifi am 10:00yb ar gae Ysgol Uwchradd Aberteifi.

26 May—The Mayor to officially open the Cardigan Classic Car Club Show at 10:00am at the Ysgol Uwchradd Aberteifi school field.

Mehefin/June 29—Dydd y Lluoedd Arfog / Armed Forces Day (to be confirmed).

29 Awst—Pen-blwydd Mrs Sally Morris yn 100 oed, Bro Teifi, 2:30yp.

29 August—100 Birthday party for Mrs Sally Morris, Bro Teifi, 2:30pm.

Er gwybodaeth / For information

Mehefin/June 29—Dydd y Lluoedd Arfog / Armed Forces Day (to be confirmed).

20 Mehefin—Bydd Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, yng Nghastell Aberteifi rhwng 3:00-4:30yp.

20 June—Aled Roberts, the Welsh Language Commissioner, will be at Cardigan Castle between 3:00-4:30pm.

Mehefin 29—Digwyddiad Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn Aberteifi.

June 29—The Proclamation of the 2020 National Eisteddfod of Wales Ceredigion in Cardigan.